



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

11 Chwefror 2022

9:00 am – 12:00 pm

dros Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones (yn bresennol tan 11:15 am), Ann Woods, Catrin Roberts, Chris Stockport, Cyng. Christine Jones, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. John Pritchard, Delyth Lloyd-Williams, Ffion Johnstone (yn bresennol tan 11:30 am), Fôn Roberts, Helen Corcoran, Iwan Davies (yn bresennol tan 11:30 am), Jenny Williams, Jo Whitehead, Lucy Reid (yn bresennol tan 11:10 am), Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling (yn bresennol tan 10:30 am), Nicola Stubbins, Rob Smith (yn bresennol tan 10:10 am), Sam Parry (yn bresennol tan 11:30 am), Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen, Trevor Hubbard (yn bresennol ar ran Bethan E Jones)
Ymddiheuriadau:	Bethan E Jones, Cyng. Cheryl Carlisle, Cyng. Llinos Medi Huws, Dr Lowri Brown, Estelle Hitchon, Paul Scott, Ricki Owen
Hefyd yn bresennol:	Gillian Paul, Rheolwr Datblygu'r Gweithlu, Cyngor Gwynedd Christine Burns, Rheolwr Ymarferydd Gwasanaeth Awtistiaeth Gogledd Cymru Wendy Thomas, Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol Awtistiaeth, CLILC Sioned Thomas, Swyddog Datblygu Awtistiaeth Genedlaethol - Gogledd a Chanolbarth Cymru Jodie Phillips, Rheolwr Dewis Cymru, Data Cymru

Eitem		Camau Gweithred u
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.	
2.	<u>Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP)</u> Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan GP ar gynnydd y Grant SCWWDP. Mae'r SCWWDP yn Grant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei reoli drwy Ofal Cymdeithasol Cymru, sy'n canolbwyntio ar gefnogi uchelgais y	

	<p>Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gweithrediad parhaus o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.</p> <p>Mae grant SCWWDP yn cysylltu â blaenoriaethau'r Asesiad o Anghenion a meysydd blaenoriaeth y Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol • Addysg ac addysgu gwych • Darparu hyfforddiant gwaith cymdeithasol cymwys ac ar ôl cymhwyso • Arweinyddiaeth ac olyniaeth • Siâp a chyflenwad gweithlu <p>Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ardystio'n barod yn y Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru ar 26/01/22, ac yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Sylwadau gan Aelodau'r Bwrdd: Holodd MW-J am y camau gweithredu yn erbyn blaenoriaeth 'Siâp a Chyflenwad y Gweithlu' i '<i>sicrhau bod gwirfoddolwyr a phartneriaid trydydd sector gyda mynediad at ein rhaglen hyfforddi lle bo'n briodol</i>' – gan ofyn beth oedd y rheswm nad oedd llawer o weithwyr y Trydydd Sector yn gallu cael mynediad at hyfforddiant ar hyn o bryd. Nododd GP y pwynt dilys hwn a chytunwyd i ddiweddarau'r eirfa. Cadarnhaodd GP mai'r rheswm am hyn yw bod y nifer y ceisiadau sy'n dod gan elusennau sydd ddim yn rhan o lechyd a Gofal Cymdeithasol yn uniongyrchol. Cytunodd GP i gynnwys yr iaith Gymraeg o fewn y rhestr flaenoriaeth.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cytuno i dderbyn y Cynllun Gweithredu SCWWDP.</p>	
3.	<p><u>Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI)– diweddariad Rhanbarthol a Chenedlaethol</u></p> <p>Y Tîm Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol Hysbysodd y Cynghorydd CJ y bwrdd o'i rôl fel Cefnogwr Awtistiaeth Gogledd Cymru; i hyrwyddo ymwybyddiaeth sy'n codi o amgylch problemau y mae pobl awtistig yn eu hwynebu, rhieni a gofalgwyr oedolion a phlant awtistig, ac i fod gyda diddordeb ac yn barod i ddysgu am faterion sy'n wynebu'r cymunedau awtistig.</p> <p>Nododd NA, Noddwr Awtistiaeth Gogledd Cymru bod y Tîm GAI wedi dangos cadernid yn ystod y cyfnod clo, gan ddarparu cefnogaeth ragorol i bobl gydag Awtistiaeth yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Darparodd CB ddiweddariad ar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol. Y prif bwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Covid-19 wedi awdurdodi gweithio arloesol, roedd y gwaith yn parhau drwy ddefnyddio asesiadau diagnostig ar-lein. Fodd bynnag, ni all y ffordd hon o weithio fod yn opsiwn tymor hir gan fod rhaid i staff gyflawni gwaith personol/ hybrid er mwyn arsylwi ymddygiadau i ddatblygu'r cymorth cywir. 	

- Staffio – cyflenwad llawn bron iawn o staff, tîm cefnogol dda gyda staff yn cyflenwi pob sir.
- Dim rhestr aros gyfredol ar gyfer cefnogaeth gan weithwyr Cyswllt.
- Rhestr aros ar gyfer asesiadau diagnostig yn genedlaethol ac yn parhau i fod yn arwyddocaol. Rhagwelir y bydd cyfarfodydd personol yn cael eu cyflwyno mewn 2 ganolfan asesu ledled Gogledd Cymru a fydd yn mynd i'r afael â'r rhestr aros.
- Mae cefnogaeth ragorol wedi'i ddarparu yn y gymuned gyda phrif gyflogwyr ar draws y rhanbarth yn dod yn fwy ymgysylltiol i gyflogi gweithwyr niwroamrywiaeth.
- Rhannu gwybodaeth – gwybodaeth a ddaeth i law gan atgyfeirwyr yn parhau i fod yn her. Er mwyn i'r tîm i frysbennu achosion yn briodol ac i gael y gefnogaeth gywir i unigolion, mae Tîm Aml Ddisgyblaeth GAI yn gofyn am asesiadau a gwybodaeth arall i'w rhannu yn y camau buan i atal oedi i gefnogi ac asesiad.
- Seren Sbectrwm – Mae'r arf Seren Sbectrwm yn llwyddiannus i gefnogi unigolion i nodi a gweithio tuag at eu canlyniadau, gan roi grym iddynt tuag at annibyniaeth.

Cytunodd T i gwrdd â'r tîm Gi y tu allan i'r Bwrdd i drafod a chefnogi'r gwaith a gyflawnir i sicrhau bod y cysylltiadau cywir rhwng y timau integredig a thimau lechyd Meddwl.

Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd i ystyried cais am Gyd-gefnogwr Awtistiaeth i gyflenwi rhanbarth y Gorllewin - croesawir enwau gwirfoddolwyr erbyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd NA bod y Bwrdd Strategol IAS wedi dilyn yr arweiniad ar ddull cyd-gynhyrchiol, mae cydweithiwr gyda phrofiad byw wedi cytuno i gyd-gadeirio'r Bwrdd GAI gyda NA yn y dyfodol. Mae gan y cyd-gadeirydd rôl o fewn Awtistiaeth y DU ac wedi bod yn rhan o'r Bwrdd Strategol ers ei ddechreuad.

Roedd y Bwrdd yn gytûn i nodi cynnydd y ddarpariaeth y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig; nodwyd y materion a godwyd a'r "camau nesaf" a'r "risgiau a materion allweddol" mewn perthynas i'r IAS ac i ystyried yr effaith cod ymarfer ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Awtistiaeth a gofynion ar y Bwrdd ei hun.

Y Tîm Awtistiaeth Genedlaethol (TAG)

Darparodd WT ddiweddariad ar ddatblygiadau tîm y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Genedlaethol:

- Caiff y tîm ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gynnal gan y CLILC, gydag lechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda LIC, ALI ac arweinwyr Awtistiaeth Byrddau lechyd lleol, budd-ddeiliaid allweddol a grwpiau ymgynghorol, gan weithio ar draws bob oedran a phob agwedd o fywydau pobl
- Mae'r wefan genedlaethol yn cynnwys adnoddau hygyrch a defnyddiol i unigolion ag Awtistiaeth, rhieni a gofalwyr, a gellir eu lawr lwytho am ddim. Mae copïau caled o bob adnodd ar gael hefyd gan: Sioned.Thomas@wlga.gov.uk
<<mailto:Sioned.Thomas@wlga.gov.uk>>

- Mae'r tîm cenedlaethol yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth, datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, holl ofynion hyfforddiant, cydgynhyrchiad a gweithio mewn partneriaeth, fel llais y gymuned awtistiaeth sy'n hysbysu'r holl waith.

Cod Ymarfer

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Gwasanaethau Awtistiaeth bellach wedi'i gyhoeddi a bydd yn rhaid ei weithredu o fis Medi 2021 ymlaen. Mae'r cod yn rhoi eglurder i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch eu cyfrifoldebau a'r gwasanaethau y mae'n ofynnol iddynt eu darparu i gefnogi pobl awtistig yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys:

- Goblygiadau hyfforddi a gweithlu pennaf
- Gwasanaethau datblygu niwro integredig cadarn ledled Cymru.
- Dull cyson tuag at setiau ac adrodd data
- Cyfrifoldebau clir ar gyfer y Bwrdd:
 - Enwebu Cefnogwyr Awtistiaeth y Bwrdd.
 - sefydlu Grŵp Cynllunio Rhanbarthol ar gyfer Awtistiaeth
 - creu Cynllun Gweithredu Rhanbarthol.

Nododd DL-W ynghylch asesu gwasanaethau iechyd, os oes enghreifftiau da i rannu ffyrdd arloesol o gynnig cyfle i unigolion sydd ag anabledau i gael chwistrell Covid. Mae rhai o'r unigolion fwyaf bregus mewn cymdeithas angen cael y cynnig a gweinyddu brechiadau gan nyrsys/ gweithwyr gofal crefftus, neu mae perygl eu bod yn cael eu gadael allan.

Nodwyd trafodaeth aelodau'r Bwrdd:

- Gwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn yn cael ei drafod ar hyn o bryd yn y grŵp brechu Llywodraeth Cymru/ Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chytunodd WT i ofyn am ddiweddariad a rhannu canllaw arferion da o Orllewin Cymru a'i anfon at DL-W.
- Awgrymwyd Therapi Anifeiliaid Anwes fel dewis i'w ystyried, dyma ddolen at brosiect ymyrraeth cymorth anifail yn Southampton: www.solentgold.co.uk

Cam Gweithredu:

1. Cytunodd FJ a TO i fynd â'r pwynt brechu a godwyd yn ôl i'r grŵp mewnol HB.
2. Croesawu enw Cyd-Gefnogwr Awtistiaeth wirfoddol.

Hefyd darparwyd y dolenni defnyddiol canlynol:

<https://autismwales.org/cy/>

<https://autismwales.org/cy/amdanom-ni/archwilio-cyflogaeth/>

<https://autismwales.org/cy/adnoddau/fideos/>

Cytunodd y Bwrdd i nodi:

1. Mae'r TAC yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r cydweithredfa i gyflawni'r canlyniad orau i bobl awtistig yng Ngogledd Cymru.

	<p>2. Bod y TAC a Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd.</p> <p>3. Bydd TAC yn adrodd ar gynnydd datblygu'r gweithlu yn unol â dyletswyddau'r cod ymarfer.</p> <p>4. Bydd y TAC yn adrodd ar gynnydd ar hyfforddiant a ddatblygwyd a darparwyd fel yr amlinellwyd yn y cod ymarfer.</p>	
<p>4.</p>	<p><u>Adroddiadau Chwarter 3 Rhaglenni Trawsnewid Cymru Iachach 2021-2022:</u></p> <p>Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu</p> <p>Mae adroddiad Chwarter 3 yn nodi tanwariant bach a ragwelir, fodd bynnag, mae cydweithwyr yn hyderus bydd hyn wedi'i wario erbyn diwedd y flwyddyn.</p> <p>Y prif bwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffrwd waith cyflogaeth – interniaid yn cael cyflogaeth ar ôl cyfnod profiad gwaith mewn prif safleoedd ysbyty. • Llety Rhanbarthol – cynnydd dda wedi'i wneud i flaenoriaethu nifer o ddinasyddion i symud yn nes at gartref. • Iechyd a Lles - mae 14 Cefnogwr Gwirio Iechyd wedi cael hyfforddiant er mwyn cynyddu derbyniad gwiriadau iechyd blynyddol a sgrinio iechyd o fewn cymuned LD. <p>Mae rhanddeiliaid wedi cael y cyfle i adlewyrchu ar y cyflawniadau allweddol ac i fynegi eu safbwyntiau ar flaenoriaethau AD rhanbarthol dros y 5 mlynedd nesaf. Ar sail yr adborth, argymhellwyd bod y rhaglen yn cael buddsoddiad cymesur i barhau i wneud cynnydd a bodloni heriau yn y dyfodol, gyda'r dull rhanbarthol yn cael ei gynnal.</p> <p><u>Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</u></p> <p>Mae hawliad Chwarter 3 yn is na ragwelwyd oherwydd y costau rheoli prosiect llai, fodd bynnag, bydd hyn yn cael sylw yn ystod y chwarter olaf.</p> <p>Y prif bwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lansiyd tudalen gwe ICAN newydd i hyrwyddo'r gwahanol gynigion amrywiol. Mae gwelliannau tudalen gwe ICAN yn cynnwys mwy o gyfeiriadau at gymorth ychwanegol, gyda dros 22,000 o ymwelwyr ers ei ail-lansio ym mis Medi 2021. • Mae cyllid wedi'i sicrhau i sefydlu Cynnig Gofal Heb Ei Drefnu ICAN, gwasanaeth math 'Lloches' ac wedi'i hysbysebu drwy Sell 2 Wales. Mae 1 tendr wedi dod i law. Bydd hyn yn creu rhan o lwybr argyfwng oedran. <p>Mae gwaith yn parhau i ddeall y gyfran nesaf o gyllid ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy, pa ddarn fydd yn cael ei sefydlu ayyb.</p> <p><u>Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol</u></p> <p>Adroddwyd bod cynnydd rhagorol, gyda swm sylweddol o waith wedi'i gyflawni i gynnal gwasanaethau prif ffrwd.</p> <p>Y prif bwyntiau:</p>	

- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth – roedd llawer o waith wedi'i gwblhau ar ddatblygu rhannu gwybodaeth rhwng Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) a Timau Amlddisgyblaethol gyda phrototeip yn cael ei beilota yn TAC Gorllewin.
- Mae gwasanaeth sy'n ffocysu ar Ryddhau i Asesu wedi bod yn gweithredu ar gyfer y chwarter llawn ac eisoes yn dangos gwaith rhagorol a dangos canlyniadau da.
- Gwaith Catalydd Cymunedol – cefnogi mentrau micro i ddarparu cefnogaeth yn yr amgylchedd gofal cartref.

Ymholodd y Cynghorydd BF os oedd y Cytundeb Rhannu Gwybodaeth (CRhC) wedi arwain at gysylltiadau gwell gyda Meddygon Teulu, ac oedd y diffyg staff o fewn y TAC yn ystod y pandemig wedi cael ei ymdrin.

Cadarnhaodd bod Meddygon Teulu i gyd yn rhan o'r CRhC, roedd y rhai ar y blaen yn datblygu ac wedi ymgysylltu'n llawn.

Cadarnhaodd CS bod y mater ddiweddar o ddiffyg staff o fewn y TAC wedi cael ei ddelio. Fodd bynnag, bydd y broblem yn parhau i ryw raddau, oherwydd natur TAC a gofynion staffio.

Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc

Mae'r gwaith ar ffrwd waith Plant wedi parhau i ddatblygu gyda thrafodaeth ar y gwaith a fydd yn trosglwyddo i ffrwd waith Cronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF). Mae'r is-grŵp Plant BPRhGC newydd yn cael ei sefydlu, a bydd trafodaeth ar ba agweddau o'r gwaith fydd yn trosglwyddo i'r grŵp hwn.

Canolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella (RIIC)

Mae'r gwaith ar y Canolbwynt RIIC wedi parhau ac yn datblygu'n dda. Gofynnir i'r Bwrdd i fod yn ymwybodol:

- Mae'r tîm RIIC yn annatod i gynnal gwaith arall o fewn y tîm, sydd ddim yn cael ei amlygu bob amser.
- Mae'r RIIC yn darparu cymorth i raglenni trawsnewid, yn allweddol mewn cynorthwyo â gwaith ar Asesiad Anghenion y Boblogaeth ac maent yn gweithio ar hyn o bryd ar Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.
- Nodi'r newidiadau o fewn llywodraethu RIIC, mae'r Bartneriaeth Ymchwil ac Arloesi HB wedi sefyll i lawr yn ddiweddar oherwydd newidiadau o fewn y Bwrdd Iechyd a bydd grŵp llai yn arsylwi'r gwaith.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cyllid RIIC yn parhau am 12 mis arall.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno y dylid cymeradwyo Adroddiadau Chwarter 3 2021-22:

1. Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu
2. Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
3. Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol
4. Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc
5. Canolbwynt Ymchwil, Arloesi a Gwella

5. Diweddariad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Grŵp Cydgysylltu Strategol

	<p>Soniodd NS am drafodaeth ddiweddar yn y Grŵp Cydgysylltu Strategol, lle cytunwyd i gadw'r Grŵp, er bod y rhanbarth wedi dychwelyd i'r lefel cyn Omicron. Mae'r rhanbarth yn ffodus o gael mecanweithiau mewn lle eisoes i gynnal neu dynnu cyfarfodydd yn ôl, yn ôl y gofyn.</p> <p>Hefyd dywedwyd bod Uwchgynhadledd Risg Cenedlaethol wedi'i drefnu ar gyfer 15.2.22 ac mae Prif Swyddogion Gweithredol Gogledd Cymru, Cyfarwyddwyr Gweithredol PBC a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ALI wedi cael eu gwahodd. Bydd y cyfarfod yn trafod ymateb system gyfan i her system gyfan; Mae 25% o gapasiti YGAC ledled Cymru wedi'i feddiannu'n ddiweddar yn aros i roi cleifion o gerbydau YGAC i'r Adran Achosion Brys. Mae'r rhanbarth yn parhau mewn cyfnod heriol, i'r pwynt o risg a bydd canlyniad y cyfarfod hwn yn pennu'r camau nesaf ar gyfer y Grŵp</p>	
<p>6.</p>	<p><u>DEWIS Cymru</u> Cyflwynodd JP DEWIS Cymru, un o'r nifer o brosiectau a reolir gan Uned Ddata Llywodraeth Leol, Cymru.</p> <p>Mae DEWIS Cymru yn brosiect a grëwyd fel un pwynt mynediad clir a dibynadwy y gellir ei ddefnyddio gan aelodau'r cyhoedd, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol gwasanaethau gofal ledled Cymru, i helpu i gefnogi pobl i gyflawni eu nodau llesiant. Nid yw DEWIS yn blaenoriaethu gwasanaethau ar sail sector neu natur darpariaeth gwasanaeth a chaniatáu pobl i gael mynediad at wybodaeth a gwneud eu dewisiadau eu hunain.</p> <p>Mae DEWIS yn cynnwys cyfeiriadur adnodd ac mae dros 200 o dudalennau gwybodaeth genedlaethol, i helpu pobl ganolbwyntio ar eu materion cyfredol, a chanfod ffynhonnell ymarferol o gymorth a chefnogaeth. Mae DEWIS yn cefnogi pobl â nam ar eu golwg ac anabledau cudd, mae'n wasanaeth ddwyieithog gyda gwybodaeth ar y wefan sy'n hygyrch mewn dros 70 o ieithoedd gwahanol.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i JP am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth, ac roedd y Bwrdd yn falch bod DEWIS yn dangos i fod yn bwynt gwybodaeth ddefnyddiol i bawb.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>Diweddariad ar Gyllid y Dyfodol a Chynllunio Cynladwyedd</u> Rhoddodd CR gyflwyniad ar y Gronfa Fuddsoddi Refeniw 5 mlynedd newydd (Ebrill 2022 – Mawrth 2027): Cronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF) - £32.4m Cronfa Gofal Tai (HCF) - £14.2 miliwn Cronfa Canolfannau Iechyd a Diogelwch Integredig a Chanolbwyntiau Cymunedol (HSCC&CHF).</p> <p>Mae i'r cyllid bwrpas tebyg i'r Gronfa Gofal Integredig a'r Rhaglenni Trawsnewid. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) yn allweddol o ran hyrwyddo newid a thrawsnewid ar draws iechedd a gofal cymdeithasol. Y nod erbyn diwedd y rhaglen pum mlynedd yw y bydd y rhanbarth wedi sefydlu a phrif-ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig a fydd yn golygu y gall</p>	

dinasyddion Cymru, ble bynnag y maen nhw'n byw, fod yn sicr o wasanaeth effeithiol a di-dor.

Mae'n rhaid i'r holl weithgaredd a ariennir gan y RIF gefnogi datblygiad a darpariaeth y chwe model o ofal integredig yn uniongyrchol, sef:

- Gofal yn y Gymuned – Atal a Chydlyniad Cymunedol
- Gofal yn y Gymuned – Gofal Cymhleth yn Agosach at Adref
- Hyrwyddo Iechyd a Lles Emosiynol Da
- Cefnogi Teuluoedd i Aros Gyda'i Gilydd yn Ddiogel a Chymorth Therapiwtig ar Gyfer Plant â Phrofiad o Ofal.
- Adref o'r Ysbyty
- Atebion Seiliedig ar Lety (yn canolbwyntio fwy ar HCF nag RIF)

Bydd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rywfaint o hyblygrwydd i bennu pa brosiectau a gwasanaethau sy'n alinio â pha fodel o ofal ond yn ei hanfod bydd angen i bob prosiect ddiwallu o leiaf un allan o bob adran (Grwpiau Poblogaeth; Galluogwyr) i fod yn hyfyw, a bod wedi'u hategu ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014).

Mae gan yr RIF 4 model o fewn yr adeiladwaith ariannu:

1. Prosiectau cenedlaethol – wedi'u hariannu 100% gan Lywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Dementia, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Chyllid Gofalwyr.
2. Prosiectau cyflymu – wedi'u hariannu 90% gan LIC am uchafswm o 2 flynedd. Cyllid/adnoddau cyfatebol – 10% o'r hyn sy'n angenrheidiol. Bwriad y cyllid refeniw hwn yw profi modelau newydd o ofal a dylai gyfrif am 30% o'r gwariant refeniw hollgynhwysfawr.
3. Ymwreiddio prosiectau – wedi'i ariannu 70% gan LIC am uchafswm o 3 blynedd. Cyllid/adnoddau cyfatebol – 30% o'r hyn sy'n angenrheidiol. Mae disgwyliad y dylai hyn gyfrif am 70% o'r holl wariant refeniw.
4. Prosiectau craidd – prif-ffrydio prosiectau - wedi'i ariannu 50% gan LIC am uchafswm o 5 mlynedd. Cyllid/adnoddau cyfatebol – 50% o'r hyn sy'n angenrheidiol

Yn ychwanegol, o dan yr arweiniad hwn gall yr RIF ariannu hyd at £750,000 (cyfradd ymyrryd 75%) o wasanaethau craidd y seilwaith BPRh gyda phartneriaid statudol angen buddsoddi £250,000 (cyfradd ymyrryd o 25%). Disgwylir i'r cymorth cyfatebol fod ar ffurf ariannol yn unig.

Mae elfennau eraill y gronfa yn cynnwys:

- Yr angen i'r BPRh fuddsoddi isafswm o 20% o'r RIF mewn gwerth cymdeithasol yn 2022/23.
- Gwaith gyda'r Trydydd Sector, cydnabod eu gwahanol sefyllfaoedd cyllido, ac annog y trydydd sector i ystyried ffyrdd eraill o gydweddu adnoddau er mwyn eu hannog i fanteisio ar y cyllid.
- Buddsoddi isafswm o 5% o'r RIF mewn cymorth uniongyrchol ar gyfer gofalwyr di-dâl yn 2022/23. Mae hyn yn ychwanegol at y gronfa ofalwyr ranbarthol.

- Gallai arian/adnoddau cyfatebol ar gyfer y camau ymwreiddio a chyflymu fod ar ffurf amser staff, amser gwirfoddolwyr, cyfleusterau ac adeiladau.

Mae LIC wedi cyhoeddi 12 mis arall o gyllid - £250k ar gyfer yr RIIC. Er bod y cyllid wedi'i gadw ar wahân, mae LIC wedi cynnwys nodau ac amcanion RIIC i gefnogi datblygiad yr RIF newydd.

2 Gronfa Gyfalaf:

Mae'r Gronfa Gofal Cymdeithasol yn disodli'r cyfalaf ICF blaenorol i gefnogi model o ofal seiliedig ar lety - £14.2 miliwn (cynnydd o 50% - 4 blynedd).

Mae Cronfa Canolfannau Iechyd a Diogelwch Integredig a Chanolbwyntiau Cymunedol (HSCC&CHF – 3 blynedd) wedi'i chyhoeddi gan LIC. Nid yw manylion terfynol y gronfa hon wedi dod i law eto.

Cwestiynau:

Roedd y Cynghorydd BR yn teimlo bod 5% yn swm braidd yn fach i gefnogi gofalwyr di-dâl, o ystyried y gwaith rhagorol y mae gofalwyr ar draws y rhanbarth yn ei wneud.

Cadarnhaodd CR mai 5% o'r £32.4m yw'r isafswm yr oedd LIC yn disgwyl i'r rhanbarth ei gyfrannu, a bydd hyn yn cael ei bennu gan y Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal. Mae'r gronfa ofalwyr rhanbarthol o £213k yn ychwanegol at hyn ac mae'r swm hwn wedi'i glustnodi'n benodol.

Dywedodd CR y cafodd nifer o opsiynau o ran y ffordd fwyaf briodol o glustnodi'r arian eu cyflwyno er ystyriaeth y GA ddiwedd mis Ionawr. Y cynnig a gymeradwywyd gan y GA a'i gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw - Brigdorri cyllid fel bod blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu rheoli gan Fyrddau Rhaglen / Is-grwpiau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda gweddill y dyraniad yn cael ei rannu ar draws y 3 is-ranbarth yn seiliedig ar fformiwla gwasanaethau awdurdodau unedol h.y. rhaniad canrannol ar draws y rhanbarthau.

Teimlwyd mai dyma fyddai'r ffordd fwyaf briodol o ddyrannu'r cyllid. Mantais y penderfyniad hwn yw ei fod yn caniatáu i'r rhanbarth ganolbwyntio ar ariannu'r blaenoriaethau cenedlaethol (dementia, Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a Gofalwyr Rhanbarthol) a'r gwasanaethau rhanbarthol (Anableddau Dysgu, ffrwd waith plant – is-grŵp plant a Dim Drws Anghywir, Iechyd Meddwl). Bydd yr ymdriniaeth hon hefyd yn darparu cyllid sylweddol ar gyfer pob un o'r meysydd i ddatblygu eu rhaglenni eu hunain i ddiwallu anghenion lleol, gan ystyried gwaith Asesiad Anghenion y boblogaeth (PNA).

Nododd TO y pwyntiau canlynol:

- Ystyried cysylltiadau gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngoleuni'r ffocws newydd ar hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da.

- Llywodraethu'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Cylch Gorchwyl Arfaethedig/aelodaeth yn cael ei adolygu ac ystyriaeth yn cael ei roi i lechyd Cyhoeddus Cymru ddod yn aelod.

Roddodd CR sicrwydd bod trafodaethau ar y gweill gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y rhanbarth er mwyn deall blaenoriaethau, dynodi meysydd ble mae gwaith yn gorgyffwrdd a meysydd o gydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o bob ffrwd ariannu.

Nododd MW-J y pwynt canlynol:

- Pwysigrwydd cyfnod pontio cadarn gyda gwybodaeth yn cael ei dysgu a swyddi staff yn parhau i'r cam nesaf.

Eglurodd CR bod darn o waith ar y gweill i asesu pa rai o'r prosiectau presennol sy'n ffitio gydag egwyddorion yr RIF newydd a pha rai fyddai'n dod i ben ym mis Mawrth. Bydd yr asesiad yn creu rhaglen ddrafft o waith y gellid o bosibl ei hariannu drwy'r RIF. Bydd yn hanfodol bwysig, lle nad yw rhaglenni wedi'u sefydlu/hymwreiddio'n llawn i mewn i wasanaethau craidd, bod y rhaglenni hynny wedi'u cynnwys yn y cyllid RIF newydd a'u hymwreiddio yn y system ac mae'n hanfodol bwysig peidio cholli unrhyw wersi a ddysgwyd o'r ICF a thrawsnewid

- Os oes cyllid cyfatebol eisoes yn ei le ar gyfer prosiectau cyfredol sy'n trosglwyddo i'r RIF, faint o bwysau fyddai hyn yn ei roi ar brosiect newydd i ddod o hyd i 25% o gyllid cyfatebol?

Bydd yr holl brosiectau sy'n trosglwyddo drosodd yn gorfod dod o hyd i arian cyfatebol. Fodd bynnag oherwydd nad yw'r holl brosiectau'n trosglwyddo drosodd, a gyda'r arian ychwanegol yn dod i'r rhanbarth, mae hyn yn golygu y bydd cyllid heb ei glustnodi ar draws y rhanbarth. Wedi hynny bydd y Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal yn edrych ar raglenni i'w hariannu.

Cododd Jo Whitehead y pwyntiau canlynol:

- Yr enillion o fuddsoddiad a chanlyniadau; yr enillion o ran profiad cleifion, gwelliannau ansawdd, nid dim ond incwm, a chynigiodd ymrwymiad i fonitro canlyniadau cysylltiedig a ffynonellau cyllido newydd.

Dywedodd CR bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud y bydd yn rhaid i'r rhanbarth ddangos canlyniadau penodol o ran yr hyn y llwyddwyd i'w wireddu gyda'r cyllid. Mae'n bwysig bod y canlyniadau cywir yn cael eu mesur, a bydd y rhanbarth yn gweithio gyda LIC tuag at un gyfres o ganlyniadau a fydd yn ystyrion ar gyfer LIC a'r rhanbarth er mwyn symleiddio prosesau adrodd. Fodd bynnag bydd angen canlyniadau lleol o hyd.

Bydd cryn waith yn cael ei wneud yn genedlaethol ac yn lleol ar ganlyniadau a chefnogi'r cyllid drwy adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Rhaglen Rhanbarthol Gogledd Cymru. Fodd bynnag nid yw gwir ganlyniadau'n ymddangos mewn cyfnod 12 – 24 mis - ni fydd canlyniadau'r cyllid i'w gweld am 10 - 20 mlynedd, gyda gwir newidiadau wedi'u gwneud ar draws y rhanbarth.

- Mae BPRhGC wedi cael cais i gytuno ar egwyddorion cyllido heb ddeall y risgiau a allent fod yn gynhennid yn y broses o glustnodi'r adnoddau. Mae'n anodd ar hyn o bryd gadarnhau ai hwn yw'r penderfyniad cywir ai peidio heb fod a throsolwg o rai egwyddorion ac ymrwymiad i ddeall yr egwyddorion o safbwynt rhanbarthol ac is-ranbarthol a pha gynlluniau cyfredol fyddai'n parhau.

Eglurodd CR mai'r cais ar hyn o bryd yw cadarnhau dyraniad y cyllid ar draws y rhanbarth. Bydd rhaglen ddilynol o waith yn rhoi diweddariad ym mis Mawrth/Ebrill ar sut y mae prosiectau yn symud yn eu blaen/beth oedd eu canlyniad, ac ni ellir cwblhau'r gwaith hwn heb wybod faint sydd i'w glustnodi.

Oherwydd bod aelodau yn cael problemau TG a ddim yn gallu cymryd rhan lawn yn y trafodaethau cyllido na chytuno ar yr argymhellion, cytunwyd y byddai CR yn cyfarfod tu allan i'r cyfarfod i drafod yr RIF.

- A oes gofyniad, o safbwynt llywodraethu, i bob partner wneud y penderfyniad hwn drwy eu proses wleidyddol.

Eglurodd NS bod aelodau'r GA wedi cael cyfrifoldeb dirprwyedig dros benderfyniadau gweithredol, mewn ymgynghoriad â'u partneriaid lletyol, ac mae hyn wedi gweithio'n dda yn y gorffennol. Mae hon yn ffordd newydd o ariannu trefniadau rhanbarthol, mae BPRhGC wedi derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Rhaglenni CGI a Thrawsnewid yn y gorffennol, fel rhanbarth mae angen i BPRhGC ymrwmo i symud ymlaen gan fod yr CGI, yn enwedig o fewn ALL, wedi dod yn rhan o gyllid craidd.

Strwythur Llywodraethu

Mae LIC yn awyddus i'r rhanbarth allu darparu rhaglen a strwythurau llywodraethu dilynol yn seiliedig ar y 6 model o ofal. Credir bod y strwythur llywodraethu presennol ar gyfer y Rhaglenni Trawsnewid – Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Anableddau Dysgu, Bwrdd Gyda'n Gilydd Dros Iechyd Meddwl, y Grŵp Llywio Dementia, Grŵp Llywio IAS, CGI a Chyfalaf CGI, yn cyd-fynd â'r modelau gofal. Cynigir felly y dylid cadw'r strwythurau llywodraethu presennol (ar wahân i'r Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol) oherwydd bod yr holl fyrddau wedi'u sefydlu'n dda ac eisoes wedi meithrin perthnasoedd gyda'r Trydydd Sector a grwpiau cleient, yn amodol ar adolygu ac addasu strwythurau'r byrddau presennol, a'r Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal a chydweddu'r modelau o ofal â phob un o'r strwythurau.

Roedd BPRhGC yn cytuno y dylid cymeradwyo'r broses lywodraethu a bydd y bwrdd yn cael rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau yn y cyfarfod ym mis Mawrth.

Cytunodd BPRhGC y dylid nodi amserlen cyllid refeniw RIF 2022/27.

Cytunodd BPRhGC y dylid nodi gwerth cyllid refeniw RIF 2022/27 – CR a JoW i drafod hyn ar wahân y tu allan i'r cyfarfod.

	<p>Cytunodd BPRhGC y dylid nodi gwerth ac amserlenni cyllid refeniw HCF 2022/27.</p> <p>Cytunodd BPRhGC y dylid cytuno ar y mecanwaith ar gyfer clustnodi'r ffrwd gyllido RIF yn amodol ar drafodaeth rhwng JoW a CR y tu allan i'r cyfarfod oherwydd anawsterau cysylltedd.</p> <p>Cytunodd BPRhGC y dylid cymeradwyo datblygiad 6 model rhanbarthol o raglenni gofal ar gyfer yr RIF.</p>	
8.	<p><u>Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Ionawr 2022</u></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14.1.2022 yn gofnod cywir a bod pob cam gweithredu wedi ei gyflawni.</p>	
9.	Unrhyw fusnes arall – dim byd i'w adrodd	
10.	<p>Darparwyd y dogfennau canlynol er gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 'Gweithio yn y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc', ac ymateb • Llythyr gan Lywodraeth Cymru - Cynllun Amddiffyn y Gaeaf Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru 	